ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	7 Rhagfyr 2022
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
SWYDDOG CYSWLLT:	Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706066
TESTUN:	Y wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o Dabl Ffioedd Cerbydau Hacni

1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf ag Aelodau ynglŷn â'r adolygiad o'r Tabl Ffioedd Cerbydau Hacni presennol ("tariff") a cheisio cyfeiriad ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol.

2.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Yn dilyn cais gan yr Aelodau mewn cyfarfod blaenorol, adolygwyd y ffioedd tariff presennol gan Swyddogion.

2.2 Cynigiwyd nad oes unrhyw newid i'r tariffau.

3.0 PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

3.1 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976

4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Yn wahanol i gerbydau hurio preifat, lle mae'n rhaid archebu o flaen llaw trwy weithredwr cwmni tacsis, gall Cerbydau Hacni, y cyfeirir atynt yn aml fel tacsis, weithredu mewn safle tacsi neu trwy gael eu stopio ar y stryd. Dylid nodi y gall cerbyd hacni ymgymryd â dyletswyddau cerbyd hurio preifat, ond ni all cerbyd hurio preifat weithredu fel cerbyd hacni.

4.2 Mae Adran 65 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ("y Ddeddf") yn caniatáu i'r Cyngor bennu cyfraddau neu ffioedd o fewn y sir mewn perthynas â llogi cerbyd hacni. Nid oes unrhyw ofyniad i bennu ffioedd cerbydau hurio preifat.

4.3 Ni all perchennog / gyrrwr godi tâl o fwy na'r cyfraddau tariff a bennir am siwrne, a bydd yn cael ei gyfrifo gan fesurydd sydd wedi'i raddnodi'n briodol i'r tariff a gyhoeddir.

4.4 Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad ar y ffioedd tariff yng nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu ym mis Mehefin a phenderfynwyd diwygio'r tariff. Mae'r tariff presennol i'w weld yn Atodiad 1. Yn ogystal, gofynnodd yr Aelodau i Swyddogion adolygu'r ffioedd ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn 6 mis.

4.5 Arweiniwyd y gwaith o ymgynghori, casglu ac adrodd ar y canfyddiadau gan Ymgynghorydd addas, ac mae'r adroddiad hwnnw i'w weld yn Atodiad 2.

4.6 Yn dilyn peth ymgysylltu â chwmnïau tacsis trwyddedig yn lleol, ymgynghorwyd â'r cyhoedd ynghylch tariff arfaethedig. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad yn uniongyrchol â deiliaid trwydded yn y diwydiant tacsis ac yn eang trwy'r wasg leol a'r cyfryngau cymdeithasol. Ceir crynodeb o'r ymatebion gan fusnesau a'r cyhoedd yn Atodiad C a D sydd ynghlwm ag adroddiad yr Ymgynghorydd.

4.7 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn cyfleu nad oedd angen newid y tariff.

5.0 YSTYRIAETHAU

5.1 Bydd Aelodau'n nodi bod adroddiad yr ymgynghorydd yn argymell:

a. Cyflwyno tri Thariff ar gyfer Tacsis sydd â lle i bedwar o bobl a thariff i dacsis sydd â lle i bump neu fwy o bobl.
b. Talgrynnu cyfradd tariff fesul uned, i 10au o geiniogau, er mwyn cael gwared ar y defnydd o geiniogau copr.
c. Cynyddu/lleihau pris teithio blynyddol, yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu ar gyfer Moduro.
d. Mabwysiadu'r fethodoleg arfaethedig

5.2 Mae Adran 4 adroddiad yr Ymgynghorydd yn cyflwyno methodoleg gynhwysfawr, sy'n galluogi'r Cyngor i bennu tabl prisiau teg a thryloyw, gan ystyried pob mater perthnasol, gan gynnwys y cyflog cyfartalog a chyfanswm cost y filltir. Bydd Aelodau'n nodi, er mwyn gallu gweithredu'r fethodoleg arfaethedig, bydd angen yr holl ddata presennol, gan gynnwys pellter nodweddiadol siwrne, gan weithredwyr a pherchnogion, fel bod modd asesu'r union gostau yn effeithiol wrth ystyried unrhyw newidiadau i'r tariff presennol.

5.3 Yn olaf, dylai Aelodau nodi fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y byddent yn cyhoeddi papur gwyn ar gyfer ymgynghoriad yn gynnar yn 2023, mewn perthynas â deddfwriaeth tacsis, a allai gynnig rhai ystyriaethau o ran pennu ffioedd yn y dyfodol.

6.0 ARGYMHELLIAD

6.1 Bod Aelodau'n ystyried cynnwys yr adroddiad hwn, ynghyd â chanfyddiadau adroddiad yr Ymgynghorydd yn Atodiad 2 a phenderfynu:

- cadw'r tariff fel y mae wedi'i bennu ar hyn o bryd yn Atodiad 1, a

- rhoi cyfarwyddyd i Swyddogion i gynnal ymchwil pellach, gan gynnwys mewnbwn angenrheidiol gan ddeiliaid trwydded lleol, er mwyn galluogi Aelodau i bennu ffioedd tariff priodol yn y dyfodol.